Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Cyn-ysgol Amlwch**

**Ystafell Eilian**
**Neuadd Goffa**
**Amlwch**
**Ynys Môn**
**LL68 9ET**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/09/2023

# Cylch Chwarae Cyn-ysgol Amlwch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Chwarae Cyn-ysgol Amlwch |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau ac maent yn dilyn eu diddordebau chwarae a dysgu yn dda. Maent yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar.  Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu profiadau chwarae a dysgu a gallant ddewis i ymlacio a chael cyfnodau tawel. Maent yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a charedig. Mae rheolaeth y staff o'r rhyngweithio yn gadarnhaol ac maent yn trefnu amrywiaeth dda o brofiadau chwarae a dysgu.

Mae'r amgylchedd yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Maent yn sicrhau bod yr ardal chwarae dan do i'r plant yn fawr ac wedi'i threfnu'n dda fel bod modd iddynt symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r buddsoddiad a wnaethpwyd yn yr ardal chwarae awyr agored yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Fodd bynnag mae angen gwneud gwelliannau pellach i gydymffurfio â'r rheoliadau.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, ac maent yn gwneud dewisiadau ac yn dilyn eu diddordebau chwarae a dysgu yn dda.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn mwynhau dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef. Er enghraifft, roedd un plentyn yn falch o ddangos eu darn o waith paentio, a dywedodd ei fod i dadi. Roedd ffrindiau yn brysur yn y gornel cartref; defnyddiwyd amrywiaeth o bropiau i wneud te a dangosodd un plentyn yn llawn cyffro i'r staff eu bod wedi gwneud cacen ben-blwydd.

Mae'r plant yn fodlon eu byd. Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a gwnaethant ddangos i ni sut maent yn brwsio eu dannedd ac yn golchi eu dwylo. Mae gofynion y plant yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, dewisodd un plentyn lyfr a gofynnodd yn gwrtais i'r llyfr gael ei ddarllen yn ystod amser stori. Roeddent wedi gwirioni pan gytunodd y staff gan ymateb i'w gofyniad gyda gwên.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn cydweithredu'n dda er mwyn tacluso eu teganau. Mwynhaodd y ffrindiau gynhyrchu gêm gyda'r staff; gwnaethant ddal darn o ddefnydd gyda'i gilydd wrth i'r staff osod pêl yn y canol. Roeddent yn dangos diddordeb yn y ffordd i symud y defnydd a gweithiwyd gyda'i gilydd fel tîm i reoli'r bêl heb iddi syrthio i ffwrdd. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser byrbryd; maent yn ymarfer ymddwyn yn foesgar drwy eistedd yn ddel wrth y bwrdd.

Mae'r plant yn mwynhau gwneud eu dewisiadau eu hunain a llywio eu chwarae yn llwyddiannus. Er enghraifft, ymarferodd y plant eu sgiliau cydbwyso drwy gamu drwy gylchoedd a thrio eu gorau glas i hwla. Byddant yn archwilio'r gweithgareddau pen bwrdd sydd ar gael gyda diddordeb a byddant yn canolbwyntio’n dda wrth gwblhau'r amrywiaeth o bosau. Treuliodd y plant amser yn archwilio'r offerynnau cerddorol, ac arbrofwyd drwy daro amrywiaeth o ddrymiau a chreu rhythmau gwahanol. Mae'r plant eraill yn mwynhau gwneud marciau yn y toes chwarae drwy ddefnyddio dewis o dorwyr a rholwyr. Dangosodd plentyn y siâp siarc yr oeddent wedi'i greu â balchder.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibynnol mewn ffordd briodol. Maent yn defnyddio gris i gamu i fyny a defnyddio'r basn golchi dwylo i olchi eu dwylo. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, ni roddwyd y cyfle i'r plant weini eu hunain â byrbrydau a diodydd. Cydnabuwyd hyn gan y person sy'n gyfrifol a dywedodd eu bod yn gweithio ar syniadau i wella profiad amseroedd byrbryd. Mae'r plant yn archwilio'r gornel gwisgo i fyny ac yn mwynhau trio gwahanol wisgoedd. Maent yn dysgu sut i wneud y mwyafrif o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cefnogi'r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac yn rhoi ymateb i'w gofynion sy'n gyson iddynt ac mewn modd amserol. Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar.

Mae gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac yn cofnodi presenoldeb y plant a nhw eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, yn dda. Darperir byrbrydau iach iddynt gyda dewis o lefrith neu ddŵr i'r plant ei yfed. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo a brwsio eu dannedd, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau, a bydd y rhain yn cael eu llofnodi gan rieni i ddangos eu bod yn cael eu hysbysu. Nid yw'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, ni wnaeth y staff newid eu menyg untro ar ôl cael gwared â'r cewyn a chyn newid y plentyn. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant a'r staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r staff yn dangos esiampl dda ac yn annog y plant i wneud ffrindiau, chwarae gyda'i gilydd a bod yn garedig i'w ffrindiau. Maent yn cynnig amgylchedd cynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd angen. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel, cyfforddus a hapus.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn arwain eu chwarae eu hunain mewn modd cadarnhaol. Mae'r staff yn ymgysylltu â'r plant yn gyson yn eu gweithgareddau, er enghraifft, rhoddodd un aelod o'r staff gefnogaeth dyner drwy ofyn cwestiynau er mwyn helpu'r plant i gwblhau eu gweithgarwch paentio. Mae'r staff yn cadw cofnod o gynnydd y plant ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad pob plentyn yn bwrpasol. Mae'r staff yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob plentyn.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant am eu cymdeithas ehangach ac wedi trefnu gweithgareddau iddynt ymgysylltu â'r gymuned i helpu'r plant i ddod yn ymwybodol o'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol. Dengys ffotograffau y plant yn mwynhau ymweliadau i'r rhandir i ddysgu am y planhigion a'r llysiau sy'n tyfu. Maent yn mynd ar deithiau cerdded o amgylch y pentref i bostio llythyrau a bwydo'r hwyaid. Mae'r staff yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r gwaith y mae'r bobl yn ei wneud yn y gymuned i'n helpu ni. Er enghraifft, cawsant ymweliad gan yr Heddlu i siarad am yr hyn maent yn ei wneud. Mae'r staff yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn briodol er mwyn datblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar, cyfeillgar a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'r peryglon posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid oedd y system sy'n rheoli mynediad i'r safle wedi ei weithredu'n briodol ar adeg ein hymweliad. Siaradom â'r person sy'n gyfrifol, a gwnaethant ymdrin â'r broblem ar unwaith i godi safonau'r gweithdrefnau diogelu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn defnyddio arferion glanhau da. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau. Roedd dyddiadau rhywfaint o'r cyfarpar yn y blwch cymorth cyntaf wedi dod i ben. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac wedi'u trefnu'n ddeniadol gyda theganau o ansawdd da, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Caiff ardaloedd gorffwys eu cyflwyno mewn ffordd greadigol ac maent yn gwahodd plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Maent yn sicrhau bod gan y plant fynediad rhwydd i adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy i feithrin eu sgiliau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r buddsoddiad diweddar a wnaethpwyd yn yr ardal chwarae awyr agored yn cynnig ardal chwarae ddeniadol gyda dewis o gyfarpar ac adnoddau i helpu i ddatblygu sgiliau corfforol a chydsymud y plant. Ar adeg ein hymweliad, nid oedd yr ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio oherwydd y tywydd gwael. Fodd bynnag, roedd ffotograffau yn dangos y plant wrthi'n reidio sgwteri, yn ymarfer eu sgiliau cydbwyso, yn defnyddio'r cyfarpar dringo ac yn gwneud marciau gydag amrywiaeth o offer a sialciau.

| **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau ac i reoli'r lleoliad yn briodol. Maent wedi adeiladu tîm staff cryf sy'n ymroddedig ac yn llawn cymhelliant. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau ar rai ardaloedd er mwyn bodloni rheoliadau.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau wedi'u rhoi ar waith yn briodol a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adroddiad adlewyrchol sy'n adolygu ansawdd y gofal ac yn tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio'n dda ynghyd â'r hyn sydd angen ei wella. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cynnwys y safbwyntiau a'r sylwadau a gasglwyd gan y staff, rhieni a'r plant i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gwiriadau datgelu a gwahardd ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol a bod yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid ydynt wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yn ffeil cyflogaeth yr aelod newydd o'r staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cynnal trafodaethau goruchwylio ffurfiol gyda'r holl staff i drafod a chadw cofnod o'u lles, datblygiad proffesiynol a'u gofynion ymarfer a hyfforddiant. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Dywedodd y staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad. Mae arfarniadau wedi cael eu cyflawni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi coladu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant.

Dywedodd y rhieni eu bod yn fodlon ar y lleoliad a bod eu plant wedi setlo'n dda. Gwnaethant ddweud bod y staff yn ‘gyfeillgar’ a'i bod yn ‘hawdd siarad â nhw’. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r gymuned leol. Mae profiadau cadarnhaol o'r fath yn helpu'r plant i ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ofynnol ei choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas yn ei rôl i ofalu am y plant a'u cadw'n ddiogel. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd fel bod modd iddynt drafod eu lles, datblygiad proffesiynol, a'u gofynion ymarfer a hyfforddiant. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau caiff y trafodaethau hyn eu ffurfioli a'u cofnodi fel tystiolaeth eu bod wedi cael eu cyflawni. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Diwygio'r gweithdrefnau newid cewynnau gyda'r staff yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 blwydd) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchod plant a Grwpiau Chwarae). |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod cynnwys y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio'n aml a'i newid yn ôl yr arfer. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod y sylwadau a gasglwyd gan y staff, rhieni a'r plant yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal i werthuso'r lleoliad yn llawn. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod yr holl staff yn dilyn asesiad risg y lleoliad a'u bod yn gwbl ymwybodol o'r mesurau sydd ar waith i reoli risgiau posibl i'r plant mewn perthynas â rheoli mynediad i mewn i'r safle. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/11/2023